# Cenn@d

MEHEFIN 5 2024 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 171

## Mwynder Maldwyn ym Meifod



Plant ysgol Sul Llanfair Caereinion yn peintio ewinedd



Euron yn arwain y gwasanaeth gyda'i gap pêl-droed



Plant yr ysgol Sul yn cyflwyno eitem yn yr oedfa

Ychydig ddyddiau cyn dechrau'r cystadlu brwd ar faes Eisteddfod yr Urdd ym Meifod eleni cyhoeddodd yr Urdd fod dros 100,000 o blant ac ieuenctid yn cystadlu – y ffigwr uchaf erioed, a'r tro cyntaf iddynt groesi trothwy'r chwe ffigwr. Cafwyd wythnos wych o gystadlu yn ôl yr arfer, a bwrlwm ar y maes gyda Gwŷl Triban, y lle chwaraeon, celf a chrefft, sioeau plant ac ieuenctid, sioeau Cyw, a llawer iawn mwy. Er gwaetha'r glaw a'r mwd ddechrau'r wythnos, wnaeth hynny ddim amharu ar ysbryd yr ŵyl.

**Oedfa'r Urdd yn Llanfyllin**

Cynhaliwyd oedfa i roi cychwyn i'r eisteddfod, a hynny yng nghapel Pendref, Llanfyllin, wedi ei threfnu gan y Parch. Euron Hughes. Braf oedd gweld bwrlwm ac afiaith y criw ifanc yn yr oedfa honno, a'r capel yn gyffyrddus lawn. Dewiswyd y thema 'Gorau chwarae, cydchwarae' gan Euron – nid yn annisgwyl o gofio am ei ddiddordeb angerddol ym myd y bêl-droed. Cawsom ein tywys ar daith o gydweithio ar y ddeiseb heddwch gan ferched Cymru gan mlynedd yn ôl, cydweithio rhwng Ann Griffiths a'i morwyn, Ruth Evans, ac eraill i ddiogelu cofnodi emynau llafar Ann, a'r cydweithio trwy rannu neges heddwch yr Urdd ar hyd a lled y byd.

Mae cyfle i wrando ar yr oedfa drwy fynd i wasanaeth gwrando eto BBC Cymru. Wedi'r gwasanaeth, fe wahoddwyd pawb yn ôl i dafarn y Cross Keys, canolfan sydd bellach yn gaffi cymunedol, yn fanc bwyd, yn gapel ar y Sul ac yn ofod gweddi weddill yr wythnos. Diolch am weledigaeth Shan a Darren yn gwasanaethu'r gymuned yn y ffordd ymarferol hon. O na bai mwy o fentrau tebyg i'r Cross Keys gennym yng Nghymru.

**Pabell yr Ysgolion Sul**

Ymhlith y bwrlwm ar y maes yn ôl yr arfer yr oedd gweithgaredd Pabell yr Eglwysi, o dan nawdd Cytûn a'r Cyngor Ysgolion Sul. Cafwyd cefnogaeth yr eglwysi lleol, a bu llawer o selogion yr ysgolion Sul lleol yn gwirfoddoli o fewn y babell wrth groesawu miloedd o blant i mewn atom. Cafwyd arddangosfeydd o waith ysgolion Sul lleol yn Llanfair Caereinion a Llanbryn-mair, a chyfraniad gan nifer o ysgolion a fu'n cydweithio â Chymorth Cristnogol. Yn ogystal â hynny, yr oedd arddangosfa gan Ymddiriedolaeth Ysgolion Impact, elusen sy'n gweithio i rannu'r Efengyl ymhlith plant ac ieuenctid y sir drwy'r ysgolion lleol.

Roedd cyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau, a hynny mewn cydweithrediad â Chymorth Cristnogol, oedd yn rhannu gofod â ni. Daeth miloedd o blant i mewn atom i sgwrsio a manteisio ar y gweithgareddau, gan gynnwys salon peintio ewinedd dan ofal plant ysgol Sul Llanfair, peintio wynebau a chyfle i nyddu gwlân coch, gwyn a gwyrdd i greu nod llyfr. Rhannwyd rhai miloedd o fferins a chartons diod i blant, yn ogystal â phaned a chacen gri i'r oedolion. O fewn stondin Cymorth Cristnogol yr oedd cyfle i greu posteri heddwch ac arwyddo deisebau amrywiol.

Bu hefyd yn braf cyfarfod nifer o athrawon ysgolion dyddiol ac athrawon ysgolion Sul er mwyn rhannu am yr adnoddau sydd ar gael i gyflwyno storïau Beiblaidd a hanes ein ffydd i blant ac ieuenctid. Daeth tri pherson atom yn ystod yr wythnos i brynu adnoddau er mwyn sefydlu Llan Llanast – o Benmaen-mawr, Maelor a'r Rhondda. Yn yr un modd cafwyd sawl sgwrs am sefydlu ysgolion Sul newydd, a dymunwn yn dda iddynt ar eu mentrau.

**Dyheu am heddwch**

Wrth i blant Cymru fwynhau eu hunain ar y maes fe'n hatgoffwyd gan Iestyn Tyne o lwyfan y brifwyl fod miloedd o blant yn dioddef yn enbyd yn Gasa ar hyn o bryd, a bywydau'n cael eu colli'n ddyddiol.

*(parhad ar y dudalen nesaf)*

Cyfarfod Blynyddol Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru **Tudalen 3**

Siarad am Iesu – Cyflwr Ffydd yng Nghymru **Tudalen 4**

Y Pentecost yng Nghapel Bwlchllan **Tudalen 7**

*Mwynder Maldwyn ym Meifod*
*(parhad o dudalen 1)*

Bob dydd am 11 o'r gloch cafwyd cyfle ar ein stondin i ddarllen Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd, a braf oedd cael croesawu person ifanc i wneud hynny. Ar y dydd Mercher, cafwyd cwmni Lois o Gaerdydd, oedd yn un o'r criw fu'n gyfrifol am baratoi'r neges yn wreiddiol. Yna, ar y nos Wener roedd yr Urdd wedi trefnu gwylnos dros y sefyllfa yn Gasa, a braf oedd gweld cynifer wedi dod ynghyd i sefyll dros heddwch a galw am gadoediad. (Cawn fwy o hanes yr wylnos yn y rhifyn nesaf.)

Diolch am wythnos lwyddiannus, ac am gwmni gwirfoddolwyr lleol. Cewch gipolwg yn y lluniau ar y gweithgareddau amrywiol a gynhaliwyd.

*Aled Davies*
*Cytûn / Cyngor yr Ysgolion Sul*


Leah yn darllen Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd ar y stondin


Hun-lun o Euron a'r gynulleidfa a ddaeth ynghyd i'r oedfa fore Sul




Bwrlwm y babell ar fore Llun




Gyda'r haf ar y gorwel, cofiwch rannu â phlant a phobl ifanc yn eich eglwysi chi am y cyrsiau fydd yn cael eu cynnal yng Nghanolfan Coleg y Bala:

**Cwrs Haf 2024**
**29 Gorffennaf–2 Awst – i ieuenctid 11–15 oed**
Pedwar diwrnod yn llawn gemau, crefftau, chwaraeon, sioe dalent, disgo, gweithgareddau ar y llyn, trip, s'mores o amgylch y tân a llawer mwy. Yn ystod ein hamser gyda'n gilydd byddwn yn edrych ar y ffydd Gristnogol a sut mae'n berthnasol i ni heddiw. Y gost yw £130 ac mae'n cynnwys y llety, bwyd a'r holl weithgareddau; mae'n hanner pris i'r 2il/3ydd plentyn o'r un teulu.

**Anhrefn Awst**
**12–15 Awst i blant 8–11 oed**
Bydd gemau gwirion, canu, storïau o'r Beibl, crefft, chwaraeon, gweithgareddau ar y llyn, s'mores o amgylch y tân, trip a llawer mwy. Y gost yw £100 ac mae'n cynnwys y llety, bwyd a'r holl weithgareddau. Mae'n hanner pris i'r 2il/3ydd plentyn o'r un teulu.

**Souled Out**
**17–22 Awst i ieuenctid 15+, myfyrwyr ac oedolion ifanc!**
Mae Souled Out yn gyfle grêt ar ddiwedd yr haf i ddal fyny gyda hen ffrindiau, cwrdd â phobl newydd a mwynhau gweithgareddau hwyl! Mae'r prif sesiynau bob amser yn uchafbwynt, wrth i ni addoli Duw, dysgu mwy amdano drwy'r Beibl a gwrando ar storïau anhygoel am beth mae Duw yn ei wneud ym mywydau pobl! Bydd rhai seminarau ymarferol hefyd i arfogi ac ysbrydoli, a grwpiau bach i'n helpu i feddwl drwy'r hyn rydyn ni'n ei glywed. Bydd llwyth o bethau hwyl i bawb ei wneud hefyd! Dros y blynyddoedd, rydyn ni 'di mwynhau *inflatables* mawr, caffi acwstig, gemau pêl-droed, crefftau creadigol, padlfyrddio, s'mores rownd y tân, a mwy! Y pris yw £134!

# Cyfarfod Blynyddol Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 23 Mai yng Ngholeg y Bedyddwyr, Caerdydd, ac yn ystod y prynhawn urddwyd ein Llywydd newydd, y Parchedig Jill-Hailey Harries.

Dechreuodd y cyfarfod drwy ddefosiwn o weddi a darlleniad o'r Ysgrythur gan y Llywydd presennol, y Parchedig Simon Walkling. Atgoffodd ni mai llysgenhadon ydym yn cynrychioli ein gwahanol draddodiadau, yn atebol i Dduw a'i eglwys ac i gymodi a hyrwyddo'i waith drwy Grist yn y byd.

Wedi derbyn cofnodion cyfarfod mis Tachwedd, codwyd y materion canlynol:

1. Dogfen ddrafft Gweinidogaeth Fro: diolchwyd am rannu'r ddogfen ac awgrymwyd y byddai'r cynnwys yn ddefnyddiol iawn i hyrwyddo a rhannu gweinidogaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Cadarnhawyd y bydd y tri Ysgrifennydd Cyffredinol yn ei drafod ynghyd â Swyddog Eciwmenaidd yr Eglwys yng Nghymru, y Parchedig Ainsley Griffiths, ym mis Gorffennaf, yn ei ddiwygio a'i gyfieithu cyn ei osod ar agenda'r cyfarfod nesaf gydag argymhellion o'u trafodaethau.
2. Casglwyd holl ddogfennau archif Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru ers yr haf diwethaf at ei gilydd, ac eithrio dogfennau Eglwysi Rhyddion Gogledd Cymru. Bydd y dogfennau'n cael eu trosglwyddo i ofal y Llyfrgell Genedlaethol ddechrau mis Gorffennaf.
3. Derbyniwyd newidiadau i'r Cyfansoddiad. Golyga hyn y gallai enwadau newydd ymuno â'r Cyngor yn y dyfodol.

Cadarnhawyd y swyddogion ar gyfer y flwyddyn:

Llywydd: Y Parchedig Jill-Hailey Harries. Cadarnhawyd ei henwebiad gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Cyn-lywydd: Y Parchedig Simon Walkling

Trysorydd: Y Parchedig Martin Spain

Ysgrifennydd: Mrs Helen Jones.

Diolchwyd i Simon Walkling am ei waith yn cynrychioli'r Cyngor. Mae Swyddogion Protocol y Senedd bellach yn ei wahodd i ddigwyddiadau gydag arweinwyr eglwysi eraill sy'n cynrychioli safbwyntiau gwahanol y traddodiad Cristnogol.



Mrs Helen Jones (Ysgrifennydd), y Parch. Jill Hailey-Harries (Llywydd) a'r Parch. Simon Walkling (Cyn-lywydd)

**Cytûn**: Cafwyd adroddiad gan y Parchedig Gethin Rhys am waith Cytûn. Cododd dri phwynt gwerthfawr:

1. Yr Etholiad Cyffredinol: Mae dyddiad yr Etholiad Cyffredinol wedi ei gyhoeddi a bydd gan Cytûn wybodaeth am bolisïau nad ydynt wedi eu datganoli ar eu gwefan;
2. Apêl Heddwch 2025: Derbyniwyd cais am gymorth ariannol i'r gronfa. Yn hanesyddol, dyma'r gweithgaredd cydenwadol cyntaf rhwng yr Eglwysi Rhyddion, yr Eglwys yng Nghymru a'r Crynwyr.
3. Caplaniaethau: Mae adolygiad o waith caplaniaethau yn cael ei ddiweddaru gan y Byrddau Iechyd yng Nghymru.

**Adroddiad Addysg**: Dangoswyd consýrn ynghylch problem recriwtio athrawon da, cymwys i ddysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ein hysgolion. Mae ysgolion yn cael problem i lenwi swyddi a'r gofid yw bod athrawon dibrofiad, heb gael hyfforddiant, yn dysgu'r pwnc.

Diolchwyd i Vaughan Salisbury, a oedd yn gorffen ei rôl wedi deng mlynedd fel Swyddog Addysg. Bu Vaughan yn gweithio'n drylwyr gydag amynedd, yn cynhyrchu gwaith ac yn pontio rhwng yr Awdurdodau Lleol a'r Senedd, yn arbennig gyda'r newid yn y Cwricwlwm Addysg yn ddiweddar o Addysg Grefyddol i Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Diolchodd Vaughan am y cyfleoedd yr oedd wedi eu derbyn.

Derbyniwyd adroddiad y Trysorydd.

Cafwyd adroddiadau gan yr holl enwadau gan gyfeirio at eu Cyfarfodydd Blynyddol amrywiol.

Diolchwyd i Aled Davies am ei adroddiad a'r gwaith sy'n cael ei gyflawni drwy'r Cyngor Ysgolion Sul. Mynegwyd ei fod yn hybu brwdfrydedd yn y lleoedd y mae'n ymweld â hwy.

Derbyniwyd adroddiad gan Grŵp Eglwysi Rhyddion Lloegr, gan eu Hysgrifennydd Cyffredinol, Paul Rochester.

**Sefydlu Llywydd Newydd Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru**

Cafwyd gwasanaeth byr i arwisgo a sefydlu'r Parchedig Jill-Hailey Harries yn Llywydd Cyngor yr Eglwysi Rhyddion am y tair blynedd nesaf. Mewn ymateb i'w harwisgo a'i sefydlu, dyfynnodd eiriau o Salm 133 – fod Duw yn galw pobl ynghyd ac felly'n creu undod. Braint yw bod fel yr olew a'r gwlith, fel hylif yn llifo at eraill, er mwyn iddynt adnabod gras a chariad Duw a bod yn rhan o'r teulu. Mae gwrthdaro a dioddefiadau pobl yn enghraifft o'r rhai sy angen ymestyn allan atynt.

Ar ôl y weddi sefydlu, ychwanegodd Jill ei diolch am waith Simon yn ei rôl fel Llywydd. Diolchodd hefyd i'r aelodau am roi eu hymddiriedaeth ynddi hi fel Llywydd y Cyngor.

Terfynwyd y cyfarfod gyda'r Llywydd newydd yn cyhoeddi'r gras. Bydd cyfarfod nesaf y Cyngor ar 21 Tachwedd yng Ngholeg y Bedyddwyr, gyda gwasanaeth hybrid Zoom yn cael ei gynnig.

*Helen Jones*
*Ysgrifennydd*

# Siarad am Iesu – Cyflwr Ffydd yng Nghymru

Ganol mis Mai es i i gyfarfod yn Hen Golwyn oedd wedi cael ei drefnu gan Hope Together a'r Cynghrair Efengylaidd i gyflwyno canlyniad arolwg a gynhaliwyd rhwng 28 Ionawr a 13 Chwefror 2022.

Cynhaliwyd yr arolwg gan Savanta ComRes, cwmni ymchwil marchnata. Mi wnaethon nhw arolwg 10 munud ar-lein am gyflwr y ffydd Gristnogol yn y Deyrnas Unedig. Roedd hwn yn ddilyniant i ymchwil debyg yn 2015. Mae'n rhoi cipolwg gwerthfawr inni ar gyflwr ffydd yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig, sut mae pobl yn dod i ffydd yn Iesu, a sut y gallwn ni siarad am Iesu yn fwy effeithiol efo'n ffrindiau ac yn ein cymunedau.

Er mwyn cael golwg eich hun ar yr adroddiad neu lawrlwytho cyflwyniad ohono ar PowerPoint, ewch i'r wefan hon: https://talkingjesus.org/research

Mae pedair adran i'r adroddiad, sef: pobl y tu allan i'r eglwys, siarad am Iesu, sut mae bobl yn dod i ffydd, a'r camau nesaf.

**Cyflwr y Ffydd yn 2022**
Roedd 48% o'r sampl yn dweud eu bod nhw'n cyfrif eu hunain yn Gristnogion (41% yng Nghymru).

Roedd 16% yn cyfrif eu hunain yn anffyddwyr neu'n agnosticiaid (20% yng Nghymru).

Roedd 8% yn dilyn ffydd arall (5% yng Nghymru).

Roedd 28% yn dweud nad oedden nhw'n perthyn i'r un o'r categorïau blaenorol neu ei bod yn well ganddyn nhw beidio â dweud (39% yng Nghymru).

Allan o 48% (41% yng Nghymru) oedd yn dweud eu bod nhw'n Gristnogion, dim ond 6% oedd yn ymarfer eu ffydd.

Y meini prawf ar gyfer perthyn i'r grŵp olaf yma oedd eu bod nhw yn rhan o eglwys ac yn mynd iddi o leiaf unwaith y mis a hefyd yn darllen y Beibl ac yn gweddïo o leiaf unwaith yr wythnos.

Roedd 49% o bobl yn meddwl bod Iesu yn fod dynol go iawn a 32% yn meddwl ei mai cymeriad mytholegol neu gymeriad mewn llyfr ydoedd.

Roedd 20% (17% yng Nghymru) yn credu bod Iesu Grist yn Dduw oedd yn byw ymysg pobl yn y ganrif 1af.

Roedd 53% yn meddwl bod Iesu yn fod dynol neu'n broffwyd /arweinydd ysbrydol ond nid yn Dduw.

Wrth ddisgrifio Iesu, roedd y mwyafrif o bobl yn dewis ansoddeiriau cadarnhaol. Roedd hyd yn oed 22% o'r bobl heb ddim crefydd yn dewis 'cariadus' fel y pumed ansoddair. Ymhlith y Cristnogion roedd 76% yn dewis 'cariadus' fel y prif ansoddair.

Roedd 47% yn credu yn yr atgyfodiad ond 29% yn meddwl bod rhai o'r hanesion yn y Beibl yn cynnwys pethau na ddylid eu cymryd yn llythrennol.

Doedd 41% ddim yn credu yn yr atgyfodiad a 10% ddim yn gwybod.

**Pobl tu allan i'r Eglwys**

Yn yr adran am bobl tu allan i'r eglwys, holwyd ble bydden nhw'n mynd i ddarganfod mwy am y ffydd Gristnogol. Atebodd 32% o'r bobl yng Nghymru y bydden nhw'n darllen y Beibl. Dim ond 26% fyddai'n defnyddio Google! Byddai 20% yn mynd i eglwys leol.

Roedd 62% o'r bobl yng Nghymru oedd ddim yn cyfrif eu hunain yn Gristnogion yn adnabod rhywun oedd yn Gristion. Roedd pobl â mwy o addysg yn fwy tebygol o adnabod rhywun oedd yn Gristion. Roedd 36% yn adnabod ffrind oedd yn Gristion a 36% yn dweud bod aelod o'r teulu yn Gristion, ond dim ond 2% oedd yn adnabod arweinydd eglwys.

Ar y cyfan, roedd pobl oedd ddim yn Gristnogion yn disgrifio Cristnogion mewn termau positif iawn. Roedd 63% yn dweud eu bod nhw'n gyfeillgar a 51% yn dweud eu bod nhw'n ofalgar.

Doedd y bobl oedd ddim yn Gristnogion ddim mor gadarnhaol am yr eglwys ag yr oedden nhw am yr unigolion roedden nhw'n eu hadnabod.

**Siarad am Iesu**
Mae'r adran nesaf yn sôn am sgwrsio am Iesu. Yn ôl y rhai yng Nghymru oedd ddim yn Gristnogion, dim ond 24% o'r Cristnogion roedden nhw'n eu hadnabod oedd wedi cael sgwrs am Iesu efo nhw. Roedd y ganran yn llawer uwch ym Mhrydain gyfan, sef 55%.

Roedd 75% o Gristnogion yn meddwl ei bod yn gyfrifoldeb ar Gristnogion i siarad am Iesu Grist efo rhai oedd ddim yn credu, ac roedd 77% o Gristnogion yn dweud eu bod nhw'n teimlo'n gyfforddus i siarad efo anghredinwyr. Ond roedd 40% yn dweud nad oedden nhw ddim yn siarad am Iesu Grist wrth anghredinwyr oherwydd nad oedden nhw ddim yn teimlo'n hyderus i ateb cwestiynau anodd. Roedd 42% o'r Cristnogion yn dweud nad oedden nhw ddim yn adnabod anghredinwyr yn ddigon dda i siarad efo nhw am Iesu. Roedd 34% o'r anghredinwyr oedd wedi cael sgwrs am Iesu eisiau gwybod mwy.

Adroddwyd bod un o bob tri anghrediniwr eisiau gwybod mwy am Iesu ar ôl cael sgwrs efo Cristion! Mae hyn wedi newid ers 2015 pan oedd dim ond 1 mewn 5 eisiau gwybod mwy ar ôl siarad. Roedd 46% o bobl ifanc 18–24 oed eisiau gwybod mwy ar ôl cael sgwrs.



Tim Rowlands, Pen-y-groes, Pennaeth newydd y Gynghrair Efengylaidd yng Nghymru, gyda Maggie Hughes, Caernarfon

**Sut mae pobl yn dod i ffydd**
Mae'r arolwg yn dangos bod y mwyafrif (76%) o gredinwyr yn dod i ffydd cyn eu bod yn 18 oed, ond bod pobl o bob oed yn dod i ffydd. Y dylanwad mwyaf oedd teulu Cristnogol a'r ail oedd darllen y Beibl. Roedd 38% o'r bobl ifanc rhwng 18 a 24 oed yn dweud mai darllen y Beibl oedd y dylanwad mwyaf arnyn nhw i ddod i ffydd.

Mae sgyrsiau efo rhywun sy'n credu yn allweddol. Hefyd, mae digwyddiadau bywyd fel genedigaeth plentyn neu farwolaeth yn gallu bod yn arwyddocaol.

**Y camau nesaf**
Un peth oedd yn dod allan o'r diwrnod oedd pa mor bwysig ydy hi i fod yn fodlon siarad am Iesu. Mae llawer o bobl yn fodlon siarad am ffydd, yn arbennig pobl ifanc. Mae'n bwysig annog pobl i feithrin perthynas â phobl tu allan i'r eglwys a helpu pobl i beidio bod yn ofnus os nad ydyn nhw'n gallu ateb cwestiynau. Hefyd, efallai y dylid helpu pobl i feddwl am sut i ateb cwestiynau.

Yr ail beth oedd pa mor agored yw pobl ifanc i gael sgwrs am ffydd a pha mor agored yw Cristnogion ifanc i rannu eu ffydd efo ffrindiau.

Peth arall wnaeth fy nharo i oedd faint o bobl oedd yn meddwl bod yr atgyfodiad wedi digwydd. Mae'r Pasg yn perthyn i ni fel Cristnogion. Mae'r Nadolig wedi cael ei foddi gan y byd ond mae cyfle i Gristnogion wneud mwy am y Pasg, ac nid dim ond tu ôl i ddrysau caeedig mewn capel ond yn y byd tu allan.

Ar y cyfan, roedd y sesiwn ym Mae Colwyn yn ddiddorol iawn ac yn ein herio ni fel Cristnogion i gael mwy o hyder i siarad am Iesu. Efallai fod rhai pobl yn fwy bodlon clywed nag ydyn ni i rannu!

*Maggie Hughes*
*Caersalem, Caernarfon*

# Swdan: ar drothwy hil-laddiad eto – galwad i weithredu

Mae Cymdeithas y Cymod, yr elusen Gymreig sy'n gweithio dros heddwch, yn galw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i gefnogi pobl ddiniwed Swdan.

Mae argyfwng dyngarol arswydus yn datblygu yn Swdan ar hyn o bryd, ond mae sylw'r byd yn absennol yno. Mae miliynau yn dioddef, ac mae angen ymyrraeth ar frys i ddelio â'r sefyllfa argyfyngus.

Mae Swdan yn profi ton newydd, frawychus o drais, a honno'n bennaf wedi'i sbarduno gan densiynau ers amser maith dros adnoddau rhwng cymunedau ffermio nad ydynt yn Arabaidd, fel y Massalit, a chymunedau bugeiliol Arabaidd. Yn ôl Human Rights Watch, mae lluoedd paramilwrol y Rapid Air Forces (RAF) a'u cefnogwyr Arabaidd wedi bod yn gyfrifol am droseddau yn erbyn y ddynoliaeth mewn perthynas â'r Massalit a chymunedau an-Arabaidd eraill.

Mae'r ystadegau'n frawychus:

- mae o leiaf 14,700 o bobl wedi colli eu bywydau;
- mae bron 25 miliwn o bobl, dros hanner poblogaeth Swdan, angen cymorth ar frys;
- mae dros 8 miliwn o bobl wedi cael eu dadleoli.

Mae'r sefyllfa'n gwaethygu o ddydd i ddydd. Mae plant yn llwgu mewn gwersylloedd dadleoli lle mae newyn yn rhemp a lle nad yw cymorth i achub bywydau yn cyrraedd y rhai sydd ei angen. Yn ogystal â hynny, mae arbenigwyr yn rhybuddio bod y rhai sy'n llywio'r hil-laddiad yn paratoi i ddwysáu eu hymgyrchoedd creulon. Rhaid i'r gymuned ryngwladol weithredu ar unwaith i atal y llif o arfau a gweithredu sancsiynau ar y rhai sy'n gyfrifol am yr erchyllterau hyn.

Mae dylanwadau allanol yn dwysáu cymhlethdod y gwrthdaro: mae'r Emiraethau Arabaidd Unedig (UAE) yn cefnogi'r RAF, wrth i Iran a'r Aifft gefnogi'r Cadfridog Burhan. Ac mae Rwsia fel petai'n cefnogi'r ddwy ochr, gan ychwanegu at y cynnwrf.

Yn rhanbarth Darfur, yn enwedig yn El Fasher, mae'r arswyd yn glir. Mae dynion, menywod a phlant wedi cael eu lladd yn ddidrugaredd, mae menywod a merched wedi dioddef trais rhywiol, ac mae cymunedau cyfan wedi cael eu dinistrio.

Mae hil-laddiad yn digwydd yn Darfur eto – dim ond dau ddegawd wedi i'r erchyllterau blaenorol yno beri arswyd ledled y byd. Does dim amser i'w wastraffu; mae pobl Swdan angen cymorth. Mae angen i Lywodraeth y Deyrnas Unedig roi pwysau ar y rhai sy'n cymryd rhan yn y gwrthdaro a gweithio tuag at heddwch parhaol yn y rhanbarth.

Rydym yn galw arnoch i godi ymwybddiaeth a rhannu gwybodaeth am yr argyfwng. Rydym hefyd yn galw arnoch i gysylltu â'ch Aelod Seneddol i bwyso am sancsiynau a chymorth dyngarol ar unwaith.

Mae ymyrraeth ryngwladol yn hanfodol er mwyn rhwystro rhagor o ladd a sicrhau bod heddwch a diogelwch yn dychwelyd i'r rhanbarth.

# Tirlithriad Dinistriol yn Papua Gini Newydd – Galwad i Weddi

Annwyl Frodyr a Chwiorydd yng Nghrist,

Gyda chalon drom yr ysgrifennaf atoch heddiw yn dilyn y tirlithriad enbyd sydd wedi difa'r pentrefi gwledig yn Nhalaith Egna o Papua Gini Newydd.

Bu i'r drasiedi hon, sydd wedi effeithio ar chwe phentref yn ardal Maip Mulitaka yn gynnar fore Gwener (24 Mai) tra oedd y rhan fwyaf yn cysgu, achosi colli bywyd sylweddol. Mae llawer o drigolion eto nad oes dim hanes amdanynt.

Wrth i ni ymgynnull mewn gweddi, deuwn â realiti gofidus y sefyllfa ger eich bron:

- Roedd oddeutu 4000 o bobl yn galw'r pentrefi hyn yn gartref iddyn nhw.
- Mae 140 o dai wedi eu claddu o dan y rwbel .
- Amcanir bod o leiaf 2000 o unigolion wedi eu claddu o dan y gweddillion.
- Mae 670 wedi colli eu bywydau.

Oherwydd natur fynyddig y rhannau diarffordd hyn, mae ymdrechion i achub ac i gludo cymorth atynt yn anodd eithriadol. Er yr anawsterau hyn, mae pentrefwyr lleol yn gwneud eu gorau i ddod o hyd i rai sydd wedi goroesi a'u hachub, er bod y gobaith amdanynt yn cilio wrth i amser fynd heibio.




Ar yr adeg yma o alar dwys ac o angen mawr, yr ydym yn galw ar holl eglwysi CWM i ymuno mewn gweddi daer a gweithredoedd o dosturi. Erfyniwn ar i'r gymuned ffydd ymateb i'r drasiedi hon mewn tywalltiad o weddi, trugaredd a chymorth. Gadewch inni sefyll gyda'n brodyr a'n chwiorydd yn Papua Gini Newydd.

*Yr Eiddoch yng Nghenhadaeth Duw,*
*Y Parch. Dr Jooseop Keum*
*Ysgrifennydd Cyffredinol CWM*

# *Gair Duw ar Waith*
## gan Denzil I. John

**Casgliad o fyfyrdodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd**




**Pennod 27**
**Eglwys Waungoleugoed**

**Darllen: Ioan 19:17–27**

### Gweddi
Trugarha wrthym, Arglwydd, wrth feddwl ein bod yn rhoi ein gorau i ti. Cofiwn heddiw am yr oedrannus a'r mwyaf bregus yn ein mysg gan dderbyn bod modd i ni fod yn gefn iddynt fel rhan o'n gwaith fel aelodau o'th eglwys. Amen.

### Cyflwyniad
Un o ddarluniau hyllaf yr Efengylau yw'r croeshoelio ar Galfaria. Prin y byddem yn gweld unrhyw beth hardd na dymunol yn yr olygfa. Eto, mae Ioan am i ni sylweddoli bod Iesu yn gweld rhywbeth pwysig yno, sef fod Ioan yn sefyll wrth ochr Mair, ei fam. Wrth i Iesu wynebu ing yr hoelion yn ei gnawd ac artaith y croeshoelio, roedd am weld bod ei fam mewn dwylo diogel, ac yn gofyn i'r disgybl annwyl gymryd gofal ohoni. Mae'n ddarlun o Iesu yn ystyried anghenion y genhedlaeth hŷn yn gyffredinol, a'i fam yn benodol. Ymhen ychydig amser byddai'n ymbil ar ei Dad Nefol i faddau i'r rhai a'i croeshoeliodd, ond ar yr eiliad dan sylw mae'n gofyn i Ioan gymryd cyfrifoldeb newydd a gwahanol.

### Myfyrdod
Byddwn yn effro i sawl corff sy'n gwarchod yr henoed mewn cymdeithas, a darperir ystod eang o gartrefi gofal yn enw cynghorau lleol neu'n gartrefi preifat, rhai'n grefyddol eu natur ac eraill yn gwbl seciwlar. Mae Cartref Glyn Nest yng Nghastellnewydd Emlyn yn enghraifft dda o gartref gofal llwyddiannus sydd ag enw da am y gofal rhagorol a geir yno. Gellir enwi cartrefi gofal eraill, a diolchwn amdanynt.

Mater gwahanol yw bod eglwysi'n cynnig gwasanaeth amgenach nag arfer i helpu'r oedrannus, a bydd aelodau lleol yn falch o'r cyfle i wneud cymwynas. Yn y gogledd-ddwyrain, ceir eglwys sy'n gwneud gwaith arbennig, ac er nad yw'n gynulleidfa fawr ac nad yw'n hynod gyfoethog o ran adnoddau bydol, mae'n cyflawni gwaith gwerthfawr mewn sawl ffordd, ond yn arbennig gyda'r ddarpariaeth sydd yno ar gyfer yr henoed.

Ceir ganddynt un rhaglen sy'n cael ei galw yn 'Helpu'n Gilydd'. Nodir ar eu gwefan eu bod:

1) yn rhoi cefnogaeth drwy'r iaith Gymraeg i unrhyw un sydd yn unig, neu yn dioddef o salwch hirdymor, e.e. cancr/dementia, clefyd y galon, clefyd yr ysgyfaint a.y.b.;
2) yn rhoi seibiant a chymorth ymarferol i ofalwyr;
3) gall gwirfoddolwyr sydd wedi derbyn hyfforddiant ymweld yn wythnosol neu bob pythefnos a bod yn glust i wrando, yn gymorth ymarferol fel casglu presgripsiwns/ helpu i ysgrifennu llythyrau a.y.b.;
4) mae gwasanaeth tylunio dwylo ar yr aelwyd ar gael;
5) gall teulu/ffrindiau neu asiantaethau gyfeirio pobl at yr eglwys;
6) nid oes cost i hyn, ac mae'n agored i bawb sydd yn byw yn Llanelwy, Dinbych, Rhuthun a'r pentrefi o'u hamgylch.

Pa sawl eglwys arall allai gynnig gwasanaeth tebyg i hyn ledled Cymru?

### Gweddi
Diolch, Arglwydd, am gariad Crist tuag at ei fam naturiol, a'r modd y mae'n ysbrydoli pobl i barchu'r oedrannus yn ein bro a'n byd. Rhannwn weddi o ddiolchgarwch am waith yr eglwys yn Waungoleugoed a'r goleuni maent yn ei rannu yn dy enw di. Boed i bob eglwys ddarganfod modd o warchod yr oedrannus yn ein mysg a lledu terfynau dy deyrnas. Amen.

### Cwestiynau i'w hystyried
1. A oes perygl i ni feddwl am Iesu, Mab Duw, ac anghofio'i fod yn blentyn i'w rieni?
2. Beth yw'r cysylltiad rhwng y natur ddwyfol a'r reddf ddyngarol?
3. Prin y gall plant heddiw amgyffred pwysigrwydd creu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (NHS), ond a oes perygl i ni addoli'r Gwasanaeth Iechyd fel duw, heb dderbyn ein bod yn cyd-dalu amdano ac yn awyddus i'w weld yn datblygu?
4. I ba raddau y byddwn yn effro i'r camdriniaethau y bydd henoed gwledydd tlawd yn eu dioddef heddiw?
5. Beth gall eich heglwys chi ei gynnig i wella amgylchiadau henoed eich ardal?

S4C

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 9 Mehefin – dim rhaglen**

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 9 Mehefin, am 7:30yb a 16:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Aled Davies, Chwilog

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 9 Mehefin, am 12yp**
Oedfa dan ofal Llunos Gordon, Llechryd

# Y Pentecost yng Nghapel Bwlchllan

Ar Sul heulog braf daeth aelodau Gofalaeth Caron ynghyd dan arweiniad y Parch Carwyn Arthur i wasanaeth y Pentecost. Daeth y darlleniadau o Actau'r Apostolion a'r emynau yn gofnod o dywalltiad yr Ysbryd Glân yn yr Eglwys Fore.

Croesawyd Hector Macdonald a'r teulu ifanc o Batagonia i ganu yn y gwasanaeth. Hyfryd fu clywed datganiad o 'Dwy law yn erfyn sydd yn y darlun' i gyfeiliant Hector, y cerddor dawnus, ar y gitâr acwstig.

Roedd pob capel wedi ei gynrychioli a chroesawyd pawb gan Bronwen Morgan.  Cyfeiriodd y Gweinidog at ymgyrch Cymorth Cristnogol sy'n cynnig cyfle i wneud gwahaniaeth ymarferol yn enw'r Eglwys. Roedd y bregeth yn amserol ac yn berthnasol i Oedfa'r Pentecost. Cyfeiliwyd gan Alwena Lloyd Williams.


Roedd y paned te yn y festri yn dderbyniol iawn. Diolch i aelodau Capel Bwlchllan am weini. Roedd yn dda cael cyfle i gymdeithasu a rhoi'r byd yn ei le.

Bydd casgliadau'r Ofalaeth am y flwyddyn a aeth heibio yn cael eu cyfrannu i Uned Strôc Ward Ystwyth, Ysbyty Bronglais a'r Banc Bwyd Lleol drwy law'r Trysorydd, John Lewis. Bydd dros £400 yr un  yn cael eu cyfrannu  i'r ddau achos.












# Un funud fach ...





## Llan Llanast Castellnewydd Emlyn

Mae yna gwestiwn sy'n cael ei ofyn yn aml iawn yn llawer o'n heglwysi. Sut gallwn ymgysylltu â phlant a phobl ifanc? Mae hwn yn gwestiwn anodd iawn i'w ateb, a dydy'r ateb ddim gyda fi o bell ffordd. Ond dwi yn ffodus fod gen i brofiad o weithio gyda phlant. Cyn mentro i mewn i'r weinidogaeth, fe wnes i weithio mewn ysgol gynradd am flynyddoedd maith. Felly, pan gefais fy ordeinio a dechrau yn yr ofalaeth newydd, un o'r pethau roeddwn i am ganolbwyntio arno oedd creu cysylltiad ag ysgolion yr ardal. Fe wnes i ymuno a thîm Agor y Llyfr Castellnewydd Emlyn. Heblaw am Agor y Llyfr, doedd dim gwaith ieuenctid Cristnogol yn digwydd yn y dref, felly roeddwn i'n awyddus i fentro ar rywbeth newydd.

Mae tîm Agor y Llyfr wedi gweithio'n galed i greu cysylltiadau yn yr ardal, ac mae hynny wedi talu ar ei ganfed. Fe wnaethon nhw ddechrau mewn un ysgol ac erbyn hyn rydym yn mynd i bedair ysgol wahanol yn rheolaidd i rannu straeon o'r Beibl. Ond ein teimlad fel tîm oedd fod angen gwneud rhywbeth gyda'r cysylltiad hwn. Felly, fe wnaethon ni fentro ar Llan Llanast. Yr un cyntaf oll wnaethon ni fentro arno oedd Llan Llanast Nadolig, a jiw, dyna beth oedd hwyl! Mae rhaid dweud i'r 'gynorthwywraig dosbarth' ddod allan yn gryf wrth i mi a'r tîm baratoi am y prynhawn. Yn dilyn llwyddiant yr un cyntaf, bwrw 'mlaen wedyn am yr un nesaf.

Y Pentecost oedd y thema gafodd ei dewis, a chawsom brynhawn arbennig yng Nghapel y Graig i ddathlu'r ŵyl arbennig yma. Daeth dros 20 o blant i ymuno yn y gweithgareddau, a braf oedd croesawu'r bobl ifanc yma i mewn i'r capel unwaith yn rhagor. Daeth y plant a'u rhieni/gofalwyr i ddysgu'r stori, gwneud celf a chrefft, coginio, gwylio'r hanes ar fideo a darllen. Roedd yna lawer o hwyl a sbri. Cawsom hefyd ymweliad gan gamerâu Newyddion S4C i nodi'r digwyddiad, a gellir gweld y fideo bach ar safleoedd cymdeithasol y sianel.

Mae'r creu cyswllt yma yn hollbwysig, achos heb Agor y Llyfr a Llan Llanast fyddai llawer o'r bobl ifanc yma ddim yn cael cyfle i glywed yr efengyl. Bydd y Llan Llanast nesaf ym mis Medi wrth i ni fentro ar thema dechreuadau newydd wrth i'r plant fynd 'nôl i'r ysgol. Hefyd, mae yna gynlluniau i ddechrau Llan Llanast yn Llandysul.

Beth fydd dyfodol y fenter yma? Dydyn ni ddim yn gwybod, ond yn sicr mae yna frwdfrydedd i fentro ac i fynd allan i rannu neges cariad Duw gyda phlant a phobl ifanc yn yr ardal. A beth oedd y cwestiwn gafodd ei ofyn wrth i'r plant adael y festri? 'Pryd mae'r un nesaf?'

*Sian Elin Thomas*

Llongyfarchiadau i Sian ar yr eitem ragorol a ymddangosodd ar raglen Newyddion S4C yn ddiweddar yn portreadu'r modd yr aethant ati i sefydlu Llan Llanast yng Nghastell Newydd Emlyn. Bu'n dda cael rhannu stori mor gadarnhaol am fywyd eglwysig Cymru gyda'r genedl, gan ddangos yr hyn sy'n bosib mewn capel gwledig a thraddodiadol. Gwyddom am dair ardal arall ar hyn o bryd, yn ychwanegol at Landysul, sydd yn y broses o sefydlu Llan Llanast, a gobeithio bydd hyn yn ysbrydoli mwy o gynulleidfaoedd ar hyd a lled Cymru lle mae gwaith yr Ysgol Sul draddodiadol wedi edwino. {Gol.}

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru